



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Penodi Cadeirydd

Dyddiad Cau: 24 Mai 2017



**The Commissioner for
Public Appointments**

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud Cais	3
Atodiad A: Rôl Cadeirydd	5
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf	9
Atodiad C: Y broses ddethol	10

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Gadeirydd Bwrdd Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf (yr Hwb). Bydd y Cadeirydd yn atebol i Weinidogion Cymru ac yn gyfrifol am ffurfio strategaethau'r Bwrdd, gan roi arweiniad effeithlon, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion heriol. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd yr Hwb a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

I wneud cais i gyflawni'r rôl hon, cliciwch ar swydd wag ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch chi gais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae'ch gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio'ch cyfraniad at gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai'ch cais gael ei wrthod pe baech yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	24 Mai 2017
Llunio rhestr fer:	w/c 5 Mehefin 2017
Cyfweliadau:	w/c 24 Gorffennaf 2017

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweiliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun O Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweiliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn gyfle ichi nodi unrhyw anghenion neu offer penodol fydd ei angen arnoch o bosib os cewch eich gwahodd i gyfweiliad.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol

Ffôn: 029 2082 5454

E-bost: DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

Am ragor o wybodaeth am rôl Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyfyngedig a rôl y Cadeirydd, cysylltwch â:

Cari-Anne Quinn, Pennaeth Gwyddorau Bywyd - Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, Llywodraeth Cymru

Ffôn: 07747 030805

E-bost: Cari-Anne.Quinn@cymru.gsi.gov.uk

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

For further information about Public Appointments in Wales, please visit www.gov.wales/publicappointments

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Atodiad A

Penodi Cadeirydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Mae'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth am benodi Cadeirydd newydd i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf. Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sydd â diddordeb yn y sector Gwyddorau Bywyd a gwybodaeth amdani, yn enwedig o safbwynt rolau diwydiannol a rheoli clinigol/y GIG. Bydd angen ymrwymiad i greu a datblygu cyfleoedd i helpu'r economi i dyfu a datblygu'r rhyngwyneb rhwng diwydiant a'r GIG. Byddwn hefyd yn ystyried ymgeiswyr o'r tu allan i'r sector Gwyddorau Bywyd fydd yn gallu dangos sgiliau a phrofiad tebyg.

Rôl y Bwrdd yw:

- Rhoi cyngor ar sefydlu dulliau addas ac effeithiol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd i Gymru o fewn y sector gwyddorau bywyd.
- Sicrhau bod amcanion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn gyson â rhai Llywodraeth Cymru a'i fod yn cadw at yr un safonau llywodraethu a chydymffurfio deddfwriaethol.
- Bod mewn cysylltiad agos â swyddogion Adran yr Economi a'r Seilwaith ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i helpu i wireddu gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer busnesau a thwf gwyddorau bywyd.
- Helpu staff rheoli'r Hwb Gwyddorau Bywyd a staff Llywodraeth Cymru i greu a datblygu cyfleoedd i sicrhau twf economaidd yn y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru.
- Rhoi cyngor a chanllawiau ar gynllun gweithredu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf, a gweithgareddau'r Hwb, gan sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu referniw.
- Cytuno ar yr cynllun gweithredu a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal drwy'r Hwb, gan gynghori a herio ar sail profiad a cheisio sicrhau ei fod yn darparu'r allbwn y cytunwyd arno o fewn y gyllideb.
- Helpu Prif Swyddog Gweithredol yr Hwb i benodi staff newydd a mentora'r staff presennol.
- Meithrin perthynas weithio agos gydag arbenigwyr a sefydliadau o fewn y sector ar lefel genedlaethol a rhyngwladol a gweithredu fel eiriolwr dros wyddorau bywyd yng Nghymru.
- Bod yn ymwybodol o bolisiau mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt er mwyn dysgu oddi wrthynt a gwerthuso perfformiad cymharol Cymru.

Bydd y Cadeirydd yn:

- Sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael gwerth buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf, ac yn rhoi gwybodaeth reolaidd a chllir i'r Gweinidog am hynt gweithgareddau'r Hwb.
- Gwneud dyletswyddau'r Cadeirydd, gan ystyried yr ymrwymadau perthnasol o dan y gyfraith a'r rheoliadau presennol, gan gynnwys Deddf Cwmnïau 2006, Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU a chanllawiau perthnasol Llywodraeth

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Cymru ar lywodraethu corfforaethol a Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus.

- Ysgwyddo'r un cyfrifoldebau cyfreithiol cyffredinol am Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf ag unrhyw gyfarwyddwr arall. Mae'r Bwrdd cyfan yn gyfrifol ar y cyd am hybu llwyddiant Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf drwy gyfarwyddo a goruchwyllo materion yr Hwb.
- Sicrhau bod prosesau cadarn a diwydrwydd dyladwy priodol wedi'u sefydlu i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu.
- Gweithio gyda swyddogion y Llywodraeth a Bwrdd yr Hwb i ddatblygu metrigau a dangosyddion perfformiad priodol yr Hwb a helpu i fonitro perfformiad yn eu herbyn.
- Rheolwr llinell ar Brif Swyddog Gweithredol yr Hwb a chynnal gwerthusiad perfformiad blynyddol.
- Rhoi arweiniad i ddatblygiad y strategaeth a phenderfyniadau.
- Cynnal a chadeirio cyfarfodydd rheolaidd Bwrdd yr Hwb a sicrhau bod y camau sy'n cael eu cymryd yn sgil y cyfarfodydd hynny yn cael eu cyflawni'n briodol.
- Gweithio'n agos â Chadeirydd unrhyw is-bwyllgorau o'r Bwrdd, megis yr is-bwyllgor Archwilio a Thâl a'r is-bwyllgor Twf Economaidd a Swyddi, gan fod yn ymwybodol o unrhyw faterion sy'n codi.
- Gweithio'n agos â Chadeiryddion pob corff perthnasol arall ym maes gwyddorau bywyd Cymru, gan gynnwys, ond nid yn unig, Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol Gwyddorau Bywyd, Cronfa Pontio Gwyddorau Bywyd a Chronfa Gwyddorau Bywyd Cymru.

Manyleb y Person

Meini Prawf Hanfodol

- Diddordeb yn mhynciau a blaenoriaethau'r sector Gwyddorau Bywyd, gwybodaeth amdanynt a dealltwriaeth ohonynt. Bydd gofyn i'r ymgeiswyr ddangos eu bod yn deall yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sector.
- Hanes o greu cysylltiadau sy'n esgor ar lwyddiant masnachol a meddu ar y gallu i ddwyn perswâd, galw ynghyd, hwyluso a chreu consensws ymysg amrywiol unigolion.
- Hanes o lwyddiant neu o gyflawni ar lefel uwch-swyddog yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.
- Rhinweddau arweinydd cryf a'r sgiliau angenrheidiol i ddatblygu gweledigaeth a chenhadaeth newydd i'r Hwb.
- Deall y rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwasanaethu ar fwrdd a meddu ar yr hygyrdded i wneud hynny.
- Ymrwymiad i ansawdd a rhagoriaeth.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o feini prawf hanfodol y rôl.

Y Gymraeg

Bydd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol i wneud dyletswyddau'r rôl hon. Fodd bynnag, disgwylir i'r Cadeirydd ddangos dealltwriaeth o'r Gymraeg ac empathi tuag ati.

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn yr Hwb Gwyddorau Bywyd , 3 Sgwâr y Cynulliad, Bae Caerdydd, ond cynhelir cyfarfodydd mewn lleoliadau eraill o bryd i'w gilydd.
Ymrwymiad Amser:	<p>Disgwylir i'r Cadeirydd fod ar gael i weithio yn yr Hwb Gwyddorau Bywyd am o leiaf 24 diwrnod y flwyddyn (tua 2 ddiwrnod y mis; bydd y Bwrdd yn cwrdd o leiaf 6 gwaith y flwyddyn).</p> <p>Mae natur y rôl yn ei gwneud yn anodd bod yn benodol am faint yr ymrwymiad a gallai'r amser amrywio'n sylweddol wrth i argyfyngau godi.</p> <p>Bydd yn rhaid i'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd fod ar gael hefyd i fynd i nifer o ddigwyddiadau i gefnogi sector gwyddorau bywyd Cymru.</p>
Hyd y penodiad:	Penodiad o flwyddyn yn y lle cyntaf.
Tâl:	<p>Cadeirydd £337 y dydd (hyd at £25,000 y flwyddyn) (pro rata)</p> <p>Telir costau teithio a chynhaliaeth yn unol â'r terfynau cydnabyddedig.</p>

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Dylai'r ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn ffydd y cyhoedd.

Gofynnir yn benodol i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn ymwybodol o unrhyw beth yn eu bywyd preifat neu broffesiynol a allai gael effaith andwyol ar eu henw da eu hunain neu enw da Llywodraeth Cymru pe deuir i wybod amdano ar ôl eu penodi.

Nid oes disgwyl i chi fod mewn swyddi cyflogedig gyda phleidiau gwleidyddol na dal swyddi hynod sensitif neu uchel gyda phlaid wleidyddol. Yn amodol ar yr uchod, rydych yn rhydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol ar yr amod eich bod yn ymwybodol o'ch cyfrifoldebau cyhoeddus cyffredinol ac yn ymarfer disgresiwn priodol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf.

Mae disgwyl i chi roi gwybod i Lywodraeth Cymru os ydych yn bwriadu derbyn swydd amlwg mewn unrhyw blaid wleidyddol a deall y gall eich penodiad i'r Bwrdd gael ei derfynu'n gynnar, os teimlir nad yw'r ddwy swydd yn gydnaws â'i gilydd.

Gwrthdaro buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd Hwb Gwyddorau

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Bywyd Cymru Cyf, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw at y Cod Llywodraethu. I weld y ddogfen hon, ewch i:

<https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments>

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Cefndir

Sefydlwyd yr Hwb gan Lywodraeth Cymru ac mae'n un o'r elfennau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i wireddu ei gweledigaeth ar gyfer y Gwyddorau Bywyd yng Nghymru. Nod honno yw gweld twf uchelgeisiol o fewn y sector, a gweld y sector yng Nghymru'n parhau i ddatblygu, gan gael effaith sylweddol ar yr economi erbyn 2022.

Cafodd yr Hwb ei agor yn swyddogol ym mis Gorffennaf 2014 gan Lywodraeth Cymru, ac mae wedi dod yn ganolbwynt llwyddiannus iawn ar gyfer arbenigwyr a phartneriaid strategol y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan gwmpasu gweithgareddau pob sector, yn amrywio o gyllid ar gyfer cymorth busnes i ddatblygu a hyrwyddo rhyngwladol.

Cenhadaeth yr Hwb yw cysylltu, ysbrydoli a chyflymu datblygiad cwmnïau o fewn y sector hwn, gan sicrhau fod Cymru ar y map rhyngwladol fel lleoliad a ffefrir i sefydlu a datblygu cwmnïau llwyddiannus ym maes gwyddorau bywyd.

Bydd y Bwrdd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth a chenhadaeth newydd ar gyfer yr Hwb gan gynnwys datblygu cyfleoedd i ehangu sgôp yr Hwb ac i sicrhau gwerth o'r ymwneud â'r diwydiant-GIG.

Mae'r Hwb yn ganolbwynt eco-system fywiog a llewyrchus ym maes gwyddorau bywyd yng Nghymru, sy'n dod â gwasanaethau academaidd, busnes, clinigol a phroffesiynol, sefydliadau cyllid a Llywodraeth at ei gilydd i greu cronfa o ddoniau ac arbenigeddau masnachol.

Sefydlwyd yr Hwb fel is-gwmni annibynnol hyd braich o Lywodraeth Cymru.

Rôl y Bwrdd

Prif ddyletswydd y Bwrdd yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gweld gwerth i'w buddsoddiad yn yr Hwb Gwyddorau Bywyd.

Rôl y Bwrdd yw:

- Rhoi arweiniad effeithiol; diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a phennu amcanion heriol;
- Hyrwyddo'r safonau uchaf o ran cyllid cyhoeddus a chynnal egwyddorion rheoleidd-dra, uniondeb a gwerth am arian;
- Sicrhau bod gweithgareddau'r Hwb yn cael eu cynnal yn effeithiol ac effeithlon; a
- Monitro perfformiad i sicrhau bod yr Hwb yn wir gyflawni'i amcanion, ei nodau a'i dargedau perfformiad.

I wneud hyn, rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn eu lle i roi sicrwydd ar reoli risg, llywodraethiant a rheolaeth fewnol.

Bydd gan Fwrdd yr Hwb Gadeirydd a hyd at 9 aelod.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Cadeirydd y panel dethol fydd Mick McGuire, Cyfarwyddwr Sectorau a Busnesau, Llywodraeth Cymru a bydd yn cynnwys Cari-Anne Quinn, Pennaeth Gwyddorau Bywyd – Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, Llywodraeth Cymru a Bob Hudson, Cyfarwyddwr Prosiect Cydweithio Iechyd GIG Cymru, aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Mehefin 2017 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad yng Ngorffennaf 2017.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweiliadau yng Nghaerdydd .

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Caiff y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlich amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch llythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk.